

Canllawiau Ffurflen Pontio PACEY Cymru

Bydd y ddogfen canllaw hon yn eich cynorthwyo i ddefnyddio ffurflen Pontio PACEY Cymru gyda phlant, teuluoedd ac ysgolion/lleoliadau eraill i gefnogi anghenion plant yn unol â throsglwyddiadau cadarnhaol rhwng lleoliadau/ysgolion a'r cartref. Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) (CCUHP) a hawliau plant yng Nghymru. Mae geiriad Erthyglau CCUHP wedi'i gymryd o restr Comisiynydd Plant Cymru o [Hawliau Plant](#).

Sylwer y bydd y ddogfen hon yn cael ei llenwi gyda rhiant/gwarcheidwad y plentyn a bod copi yn cael ei roi i'r rhiant i'w drosglwyddo i'r ysgol pan fyddant yn cyfarfod â'r ysgol cyn i'r plentyn ddechrau.

Gwybodaeth ragarweiniol

Enw Gwarchodwr plant: nodwch eich enw.

Manylion cyswllt y Gwarchodwr plant: nodwch eich manylion cyswllt.

Hanes gofal plant: nodwch fanylion am ba mor hir y mae'r plentyn wedi bod yn dod atoch chi, oriau a nifer y diwrnodau rydych chi'n gofalu am y plentyn.

Enw'r plentyn: dylid nodi enw llawn y plentyn, yn ogystal â'r enw y mae'r plentyn yn cael ei adnabod fel arfer.

Llun: Cynhwyswch lun o'r plentyn. Os nad yw'r plentyn yn hapus i dynnu llun, yna awgrymwch lun o rywbeth sy'n arbennig i'r plentyn..

CCUHP Erthygl 8. Dylai'r llywodraeth barchu eich hawl i enw, cenedl a theulu.

Perthnasau

Ynglŷn â theulu'r plentyn: Cynhwyswch pwy mae'r plentyn yn byw gyda, perthnasau ac aelodau'r teulu sy'n bwysig ac agos. Cynhwyswch wybodaeth berthnasol am dreftadaeth, iaith/ieithoedd y plentyn yn y cartref.

Pobl sy'n bwysig i'r plentyn: Pwy sy'n bwysig i'r plentyn yn y cartref, y gymuned, y lleoliad gofal plant cyfredol ac ati? A oes gan y plentyn ffrindiau, brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu sy'n mynd i'r ysgol?

CCUHP Erthygl 15. Eich hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau a chlybiau.

CCUHP Erthygl 18. Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plant, a dylent bob amser feddwl am yr hyn sydd orau i bob plentyn.

CCUHP Erthygl 20. Dylech gael gofal priodol os na allwch fyw gyda'ch teulu eich hun.

CCUHP Erthygl 21. Eich hawl i fyw yn y lle gorau i chi os na allwch fyw gyda'ch rhieni

Darparu cefnogaeth

Sut i gefnogi anghenion y plentyn: A oes gan y plentyn unrhyw anghenion anabledd, iechyd neu lesiant penodol? A oes angen hyfforddiant ar weithwyr proffesiynol i gefnogi'r plentyn yn llawn? Cynhwyswch fanylion anghenion gan gynnwys alergeddau ac unrhyw beth rydych chi wedi'i roi yn ei le i gefnogi hyn.

A oes angen cysurwr arbennig ar y plentyn pan fydd yn teimlo'n wael neu a oes unrhyw adnoddau neu offer penodol a all helpu? Dylech gynnwys unrhyw adnoddau neu gamau yr ydych chi wedi'u cymryd i gefnogi'r plentyn.

Beth sy'n helpu'r plentyn i ymlacio neu dawelu?

Cynhwyswch wybodaeth ynghylch mynd i'r toiled, gwisgo, gofal personol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall

Cefnogi cyfathrebiad y plentyn: Pa iaith mae'r plentyn yn ei defnyddio yn y lleoliad? A oes gan y plentyn unrhyw anghenion penodol neu a oes angen cymorth arno i gyfathrebu ag eraill?

CCUHP Erthygl 30: Eich hawl i ddefnyddio'ch iaith eich hun.

Beth sy'n gwneud y plentyn yn hapus? Beth sy'n gwneud y plentyn yn hapus? Sut maen nhw'n mynegi hyn? Beth mae'r plentyn yn mwynhau ei wneud? Beth allai fod o ddiddordeb i'r plentyn ac annog eu dysgu?

Beth sy'n gwneud y plentyn yn drist? Beth sy'n gwneud y plentyn yn anhapus? Sut maen nhw'n mynegi hyn? Sut y gellir cefnogi'r plentyn drwy'r adegau anodd yma?

Beth sy'n gwneud y plentyn deimlo'n ddiogel? A yw'r plentyn yn troi at unrhyw un neu unrhyw beth yn arbennig i'w helpu i deimlo'n ddiogel? A oes angen rhannu unrhyw anghenion diogelu perthnasol?

CCUHP Erthygl 12. Eich hawl i ddweud yr hyn y credwch y dylai ddigwydd a chael gwrandawriad.

CCUHP Erthygl 19. Ni ddylech gael eich niweidio a dylid gofalu amdanoch a chael eich cadw'n ddiogel.

CCUHP Erthygl 24. Eich hawl i gael bwyd a dŵr da ac i weld meddyg os ydych chi'n sâl.

CCUHP Erthygl 23. Eich hawl i ofal a chymorth arbennig os oes gennych anabledd fel y gallwch fyw bywyd llawn ac annibynnol.

CCUHP Erthygl 31. Eich hawl i ymlacio a chwarae

Cyfrinachedd

Datganiad preifatrwydd: Mae hwn wedi'i gynnwys i sicrhau bod caniatâd gan rieni / gofalwyr wedi'i ddarparu ac y dylai person sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn ei lofnodi a'i ddyddio.

CCUHP Erthygl 16. Eich hawl i gael preifatrwydd.